

# CANLLAWIAU AR GYFER GWEITHIO GYDA POBL IFANC AC OEDOLION AGORED I NIWED

## 1) CYFLWYNIAD

1.1 Mae yna sawl ffordd y gallai oedolion proffesiynol yn Theatr y Sherman ddod i gyswllt â phobl ifanc ac oedolion agored i niwed yn ystod eu gwaith. Mae gennym Bolisi Pobl Ifanc fel rhan greiddiol o'n briff; rydyn ni'n gweithio gyda phobl ifanc fel elfen bwysig o'n cynulleidfa, a hynny yn yr awdioria ac mewn mannau eraill yn yr adeilad (ar deithiau cefn llwyfan, er enghraifft). Efallai y bydd gweithwyr unigol sy'n oedolion yn gysylltiedig â sesiynau gweithdy gyda'n 200+ o aelodau yn y Theatr Ieuenctid neu gyda phrosiectau eraill. Yn aml, fe fydd actorion a thechnegwyr sy'n oedolion ac yn gweithio ar gynyrchiadau'r Sherman yn gweithio'n agos at bobl ifanc (e.e. timau'r Theatr Ieuenctid yng nghynyrchiadau'r Nadolig). Rydyn ni hefyd yn derbyn nifer fawr o fyfyrwyr ysgol a choleg ar Leoliadau Gwaith bob blwyddyn.

1.2 Yn gyfreithlon, dyma faes arbennig o sensitif; rydyn ni'n teimlo ei bod yn addas i ni ofyn i bob oedolyn proffesiynol ac amhroffesiynol sy'n gweithio yn yr adeilad i glustnodi peth amser i feddwl am eu sefyllfa, ac i ddod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac i fod yn glir amdanynt.

1.3 Yn ôl Equity "cafwyd achlysuron eisoes ble mae aelodau [undeb llafur] wedi wynebu trefniadau disgyblu, gwaharddiadau a diswyddiad o ganlyniad i gwynion gan bobl ifanc. Mae cwyn o'r math yma yn gallu cael effaith ddifrodus ar unigolyn neu gwmni, hyd yn oed os nad oes sail iddi yn y pendraw". Yn amlwg, mae er budd pob un ohonom i weithio tuag at osgoi unrhyw sefyllfaedd o'r fath.

1.4 Ni fwriedir i'r nodiadau hyn gymryd lle trafodaeth ar y maes hwn o fewn y cwmni a gydag oedolion eraill sy'n defnyddio'r adeilad. Yn hytrach, dylent fod yn gymorth i'r drafodaeth. Gellir defnyddio egwyddorion 'asesu risg' (sy'n gyfarwydd o'n polisi Iechyd a Diogelwch) ar gyfer y maes gwaith hwn; trwy adnabod meysydd risg, a'u trafod gyda chydweithwyr, mae'r tebygrwydd i sefyllfa fynd allan o reolaeth yn gostwng.

## 2) PARATOI

2.1 Dylai unrhyw un sydd mewn safle o awdurdod (boed yn weinyddwr i'r cwmni neu'n weithiwr unigol sy'n oedolyn) ymchwilio i'w rwymedigaethau cyfreithiol; mewn perthynas â gwaith gyda phobl ifanc, yn unigol neu ar y cyd. Dylai gweithwyr fod yn ymwybodol o'r adegau y maen nhw â chyfrifoldeb cyfreithiol dros iechyd a diogelwch pobl ifanc ar y safle.

2.2 Mae gennym gyfrifoldeb cyffredinol dros sierhau bod pob oedolyn sydd ar y safle ar unrhyw adeg, gan gynnwys ymwelwyr a phobl nad ydynt yn bobl broffesiynol, yn ymddwyn mewn ffordd ddiogel a chyfrifol tuag at unrhyw bobl ifanc sydd hefyd, fel mae'n digwydd, yn yr adeilad.

2.3 Byddai'n ddefnyddiol dweud wrth bobl sy'n ymuno â'n gweithlu (yn barhaol neu dros dro), fel rhan o'u cyflwyniad i'r cwmni, y gallent fod yn gweithio'n aml ochr yn ochr â phobl ifanc, neu'n agos atynt,.

## 3) YR AMGYLCHEDD GWAITH

3.1 Dylai gweithwyr sy'n oedolion ofalu ar bob adeg eu bod yn glir ynghylch pwy sy'n gyfrifol am bobl ifanc ar y safle, yn enwedig pan fydd cydgyfrifoldeb dros unigolyn ifanc (neu grŵp) yn cael ei rhannu rhwng gweithwyr mewn adrannau gwahanol.

3.2 Dylai oedolion annog defnydd diogel ac awdurdodedig o ystafelloedd a choridorau'r Sherman ar bob adeg, a dylent arwain trwy esiampl yn y cyswllt hwn. Dylid annog pobl i beidio â defnyddio ystafelloedd a choridorau'r Sherman mewn ffordd anniogel neu anaddas.

3.3 Gellir ysmegu tu allan i'r adeilad yn unig

## CANLLAWIAU AR GYFER GWEITHIO GYDA POBL IFANC AC OEDOLION AGORED I NIWED

3.4 Ni ellir dod â chyffuriau anghyfreithlon i mewn i adeilad y Sherman; ac ni ddylid eu cloi mewn cerbyd yn y maes parcio.

3.5 Dylid cuddio cyffuriau sydd wedi eu presgreibio allan o'r golwg ac allan o gyrraedd, a'r peth gorau fyddai eu cloi mewn cerbyd, ystafell neu gwprdd.

### 4) CYSWLLT CORFFOROL

4.1 Dyma'r maes mwyaf problematig a'r un sydd fwyaf agored i'w gamddehongli. Yn aml, fe fydd ein gwaith creadigol yn yr ystafelloedd ymarfer yn golygu bod oedolion a phobl ifanc yn dod i gyswllt corfforol uniongyrchol. Fe fydd plant iau (yn enwedig rhwng 4 ac 8 oed) sydd yn rhai o'n cynulleidfaoedd yn dangos gwir ddyhead i fynegi diolch a gwerthfawrogiad mewn ffordd gorfforol e.e. cwtsh.

4.2 Cadwch gyswllt corfforol gyda phobl ifanc at lefel briodol. Mae angen i'r oedolion dan sylw drafod beth yw'r lefel honno mewn perthynas â darn penodol o waith ymlaen llaw, cyn gwneud y gwaith.

4.3 Yn y broses greadigol, efallai y bydd yn briodol gofyn i unigolyn ifanc, yn enwedig adeg llencyndod, a oes ots ganddo/ganddi gyswllt corfforol; dylid gwneud hyn gyda chymaint o ddoethineb â phosib.

4.4 Anogwch blant ifanc i eistedd wrth eich ochr ac nid ar eich pen-glin. Os yw plentyn eisiau cwtsh, cynigiwch law i'w ysgwyd neu plygwch i lawr i lefel y plentyn i sierhau ei bod amlwg eich bod chi'n rhoi cwtsh.

4.5 Nid oes angen i bob cyswllt fod yn gorfforol. Fe all rhywun ifanc ymddiried mewn gweithiwr sy'n oedolyn - e.e. trwy sibrwd "Rwy'n cael fy mwlio" yn eu clust yn ystod gweithdy neu ar ôl sioe. Mae angen cytuno ar broses ar gyfer delio gyda'r hyder hwn gyda'r person ifanc; e.e. awgrymu os ydyn nhw'n aelod o grŵp ysgol, "Beth am i ni fynd at dy athro i'w drafod gyda'g ef/hi?"

### 5) CRYNODEB

5.1 Nid bwriad y nodiadau hyn yw gwneud i oedolyn deimlo'n anghyfyrdus ynghylch gweithio gyda phobl ifanc. Y bwriad yw annog pobl i adnabod sefyllfaoedd a allai gael eu camddehongli fel bod modd cymryd camau i'w hosgoi cyn iddyn nhw godi.

5.2 Os oes amheuaeth, siaradwch â chydweithwyr.

Os oes amheuaeth o hyd, siaradwch â'r rheolwr llinell perthnasol yn y Sherman.

### 6) TEITHIO I YSGOLION A SAFLEOEDD ERAILL BLE MAE YNA BOBL IFANC

Fel cwmni sy'n gweithio'n ddyddiol gyda phlant a phobl ifanc, mae'n gyfrifoldeb ar holl aelodau'r cwmni i gadw'r safonau ymddygiad proffesiynol uchaf ar bob adeg. Pan ar safle ysgol, mae angen i aelodau'r cwmni a phobl ifanc sydd ar Brofiad Gwaith wisgo bathodynnew Theatr y Sherman [nodyn 1] gyda'u henw arno, ar bob adeg pan na fyddan nhw'n perfformio. Dylid gwneud asesiad risg ar gyfer pob cynhyrchiad sydd ar daith.

6.1 Wedi cyrraedd yr ysgol, sierhewch fod aelodau'r cwmni yn cerdded o flaen y fan, tu ôl neu i'r ochr, o'r eiliad y mae'n cyrraedd tir yr ysgol.

- Gyrrwch y araf iawn ar y safle a chymerwch ofal arbennig wrth rifysio.

<sup>1</sup> Dan reolaeth aelod perthnasol y grŵp rheoli.

## CANLLAWIAU AR GYFER GWEITHIO GYDA POBL IFANC AC OEDOLION AGORED I NIWED

- Wrth barcio (hyd yn oed os yw dros dro) peidiwch â rhwystro allanfeydd tân. Unwaith fydd y fan wedi ei dadlwytho, parciwch y fan yn y maes parcio yn ôl cyfarwyddiadau'r ysgol/safle.
- Cadwch y fan ar glo ar bob adeg tra ar safle'r ysgol/lleoliad.
- Peidiwch byth â rhoi lifft i ddisgybl yng nghanerbyd y cwmni.

6.2 Dylid anfon un person i mewn i'r ysgol i siarad â'r cyswllt neu ysgrifennydd/ysgrifenyddes yr ysgol.

Dylai fod gan y person yna set arferol o gwestiynau. Ar wahân i fanylion technegol er mwyn gosod y cynhyrchiad, fe fyddai hyn yn cynnwys:

- A oes llyfr ymwelwyr? Os felly, dylai pob personél lofnodi i mewn ac allan
- Ble mae'r toiledau staff? (Peidiwch byth â defnyddio toiledau'r plant)
- Beth yw'r trefniadau ar gyfer amserau bwyd?
- Dywedwch wrth y person cyswllt am unrhyw ymwelwyr yr ydych yn eu disgwyl e.e. cynrychiolwyr o blith cyllidwyr, gwesteion arbennig, cynghorwyr, aelodau'r bwrdd ayb.
- Gofynnwch am fanylion gweithdrefnau tân a gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod ble mae'r allanfeydd tân.

6.3 Rhaid bod y gofod perfformio a pharatoi allan o gyrraedd pawb hyd nes i'r sioe ddechrau.

- Gofynnwch am ardal newid breifat ac, os yn bosib, ardal newid y gellir ei chloi.
- Peidiwch â derbyn help gan blant gyda'r set na'r paratoadau. Ni ddylent fod yn y gofod perfformio.
- Unwaith fydd y gofod perfformio wedi ei osod, gwnewch wiriad iechyd a diogelwch cyn gadael i'r plant ddod i mewn.
- Dylai aelodau'r cwmni aros yn yr ardal perfformio a pharatoi ac ni ddylent grwydro o amgylch yr ysgol.

6.4 Mae ymddygiad o amgylch yr ysgol/safle yn bwysig. Arhoswch o fewn ardaloedd penodol a pheidiwch â chrwydro o amgylch y safle. Os oes angen i aelod o'r cwmni fynd i rywle arall yn yr ysgol, gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud wrth swyddfa'r ysgol ac ewch o amgylch yr ysgol yn dawel – peidiwch â gweiddi, chwerthin yn uchel na gwneud unrhyw sŵn diangen.

6.5 Peidiwch byth â gweithio neu berfformio heb fod athrawon yn bresennol. Pan fydd gwarcheidwad yn bresennol, sierhewch ei fod wedi cael ei friffio'n llawn gan yr ysgol.

6.6 Sierhewch fod y fan ar glo ar bob adeg tra ar safle'r ysgol.

6.7 Peidiwch â gadael y fan i flocio drws yr ydych yn ei ddefnyddio i gludo pethau i mewn. Parciwch y fan yn rhywle arall yn ystod y sioe.

6.8 Peidiwch ag ysmygu unrhyw le ar safle'r ysgol (gan gynnwys yn y fan) os nad yw'n ardal ysmygu benodol, er enghraifft yr ystafell staff.

6.9 Peidiwch â mynd â chyffuriau anghyfreithlon ar safle'r ysgol, ac mae hynny'n cynnwys eu cloi yn y fan.

6.10 Dylech guddio cyffuriau sydd wedi eu presgreibio a dylent fod allan o gyrraedd y plant. Yn y fan sydd ar glo fyddai orau.

6.11 Ni ddylech fynd ag alcohol arno i safle'r ysgol neu'r lleoliad dan unrhyw amgylchiadau, ac ni ddylai aelodau'r cwmni yfed alcohol cyn cyrraedd yr ysgol. [gweler y Llawlyfr Staff am Bolisi Theatr y Sherman ar Alcohol a Chyffuriau].

## CANLLAWIAU AR GYFER GWEITHIO GYDA POBL IFANC AC OEDOLION AGORED I NIWED

- 6.12 Defnyddiwch yr un gofal wrth adael y safle a phan gyrhaeddoch chi.
- 6.13 Gwnewch yn siŵr fod eich iaith a'ch sgwrsio yn addas.
- 6.14 Sicrhewch nad yw'ch gweithredoedd yn gwrthdaro â rheolau'r ysgol.
- 6.15 Rydych yn gennad dros y Cwmni ac yn fodel rôl i'r plant: sicrhewch fod popeth amdanoch yn adlewyrchu hyn.
- 6.16 Byddwch yn gyfrifol dros glirio'n gyfan gwbl ar ôl y perfformiad. Ewch ag unrhyw sbwriel gyda chi.
- 6.17 Riportiwch unrhyw ddamweiniau neu unrhyw beth a dorrwyd ar unwaith.

# CANLLAWIAU AR GYFER GWEITHIO GYDA POBL IFANC AC OEDOLION AGORED I NIWED

## Y WEITHDREFN AR GYFER DAMWEINIAU

Mae'r sawl sy'n arwain ymarfer neu weithdy yn gyfrifol am ddiogelwch aelodau'r theatr ieuencid. Cyn i'r ymarfer ddechrau, sierhewch fod y gofod yn rhydd o unrhyw beryglon a pheidiwch â gadael y bobl ifanc heb oruchwyliaeth.

Os oes damwain, rhaid ei riportio i'r dderbynfa ar unwaith. Sierhewch fod y sawl a anafwyd yn gyffyrddus a heb fod ar ei b/phen ei hun.

Os oes angen cymorth cyntaf, sierhewch fod swyddog cymorth cyntaf yn bresennol. Mae'r rhestr staff yn dangos pa aelodau o staff sydd wedi eu hyfforddi fel swyddogion cymorth cyntaf – fe fydd staff y dderbynfa yn gallu dod o hyd i rywun i chi.

Mae yna Flychau Cymorth Cyntaf yn:

Y Swyddfa Gyffredinol Blaen Tŷ

Y Gegin wrth y Brif Swyddfa

Swyddfa Rheoli Llwyfan Technegol

Rhaid cofnodi pob damwain. Gellir cael ffurflenni adrodd ar ddamweiniau gan y dderbynfa a'r brif swyddfa a rhaid llanw pob rhan a rhoi copi i'r aelodau perthnasol o staff – y Cyfarwyddwr Gweithredol a Pennaeth Gweithgareddau a Gweithrediadau.

Os teimlir bod y ddamwain yn un ddifrifol, rhaid cysylltu â'r rhiant/rhieni a ffonio ambiwlans. Os nad oes modd i'r rhiant/rhieni gyrraedd y Sherman ar unwaith, rhoddir y plentyn yng ngofal y parafeddygon. Rhaid i'r dderbynfa wneud nodyn o'r ysbyty y mae'r ambiwlans yn mynd iddi a throsglwyddo'r holl wybodaeth angenrheidiol i'r rhieni.

Os oes angen mynd i'r adran Damweiniau ac Achosion Brys ond nid oes angen ambiwlans, gellir trefnu taesi at ddrws y llwyfan os nad yw'r rhiant/rhieni yn gallu cyrraedd y Sherman ar unwaith. Rhaid bod aelod o staff Theatr y Sherman gyda'r unigolyn ifanc hyd nes bod y rhiant/rhieni yn cyrraedd yr ysbyty. Ni ddylai plentyn deithio ar ei ben ei hun mewn taesi, o dan unrhyw amgylchiadau.

Os nad oes aelod o staff ar gael ac nid oes modd cysylltu â rhiant, fe fydd yn rhaid galw ambiwlans.

Ni ddylai plentyn deithio mewn car sy'n eiddo i aelod o staff, o dan unrhyw amgylchiadau.